**Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Ffurflenni'r Llys Gwarchod**

**Diben**

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn pennu'r safonau y gallwch eu disgwyl gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ) a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLITEM) pan fyddwn yn prosesu gwybodaeth bersonol ('data personol') amdanoch chi yng nghyd-destun achos yn y Llys Gwarchod; sut gallwch gael gafael ar gopi o'ch data personol; a'r hyn gallwch ei wneud os ydych yn teimlo nad yw'r safonau'n cael eu bodloni.

Mae GLITEM yn un o asiantaethau gweithredol MoJ. MoJ yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol a gedwir, er gall weithio ar y cyd gyda GLITEM. Mae GLITEM hefyd yn casglu a phrosesu data personol er mwyn gweithredu ei swyddogaethau cyhoeddus cysylltiedig â'i rwymedigaethau cyfreithiol.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol o ran prosesu data personol sy'n cael ei gasglu a'i reoli gan y Llys Gwarchod (a'i farnwyr) pan maent yn gweithredu mewn capasiti barnwrol. Mae'r farnwriaeth yn annibynnol o MoJ a GLITEM ac mae'r ddeddfwriaeth diogelu data yn ei heffeithio'n wahanol o ganlyniad i hyn. Ceir rhagor o wybodaeth yn: www.judiciary.uk/about-the-judiciary/judiciary-and-data-protection-privacy-notice/

**Ynghylch data personol**

Mae data personol yn ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod, un uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, o'r data hwnnw. Nid yw'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â phobl wedi marw, grwpiau neu gymunedau o bobl, sefydliadau neu fusnesau. Gall gynnwys eich enw, eich cyfeiriad neu'ch rhif ffôn. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth am eich rhywedd, eich amgylchiadau ariannol, eich cefndir diwylliannol, eich perthnasau, neu eich statws cymdeithasol.

Gwyddwn ei fod yn hynod bwysig i ddiogelu preifatrwydd bob unigolyn sy'n rhan o achos llys a chydymffurfio â deddfau diogelu data. Byddwn yn diogelu eich data personol a byddwn ond yn ei ddatgelu pan mae'n gyfreithlon i wneud hynny neu gyda'ch caniatâd chi.

**Mathau o ddata personol rydym yn eu prosesu**

Rydym ond yn prosesu data personol sy'n berthnasol ar gyfer bodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol ac er mwyn gweinyddu cyfiawnder. Gall y mathau o ddata a gasglir trwy ffurflenni llys gynnwys: eich enw, eich cyfeiriad, eich manylion cyswllt, eich amgylchiadau ariannol, eich ethnigrwydd, eich credoau crefyddol a manylion unrhyw unigolion eraill, gan gynnwys plant, y mae'r achos yn berthnasol iddynt, neu y gallant fod â diddordeb yn yr achos.

Bydd y data personol fel arfer yn cael ei gasglu yn uniongyrchol gennych chi neu gan unigolyn arall sydd wedi cynnwys eich data mewn ffurflen llys maent wedi'i llenwi. Gall ffynonellau eraill gael gafael ar eich data yn ystod cyfnod yr achos, er enghraifft, sefydliadau proffesiynol fel Awdurdod Lleol, Swyddfa'r Cyfreithiwr Swyddogol, Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus neu barti arall yn yr achos.

**Pwrpas prosesu data a'r sail gyfreithiol dros brosesu**

Y prif reswm rydym yn prosesu data personol yw at ddibenion gweinyddu cyfiawnder a chefnogi'r farnwriaeth annibynnol wrth gynnal y gyfraith ac wrth gyflawni cyfiawnder yn ddiduedd, yn gyflym ac yn effeithlon. Mae prosesu hefyd yn angenrheidiol ar gyfer sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

Cesglir a chedwir y data personol sydd ei angen at y diben hwn mewn ffurflenni llys. Mae'n cael ei uwchlwytho i gronfa ddata y llys hefyd, gan gefnogi'r broses o weinyddu cyfiawnder mewn achos llys. Defnyddir y gronfa ddata gan staff y llys i reoli achosion a chasglu gwybodaeth o ansawdd da am gynnydd achos.

Mae'r ffurflenni llys ar gael yn: www.gov.uk/government/collections/ffurflennir-llys-gwarchod

Mae'n orfodol gan y llys dan Ddeddf Rheolau'r Llys Gwarchod 2017 ("Y Rheolau") yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 i ddefnyddio'r ffurflenni hyn mewn achosion llys a galluogi rheoli achosion yn effeithiol yn y Llys Gwarchod. Yn gyffredinol, defnyddir y ffurflenni i gychwyn achosion neu i bennu camau gweithredu o fewn achosion presennol ac mae'r wybodaeth a ddarperir yn galluogi'r llys i gyflwyno cyfiawnder a gwneud penderfyniadau pwysig.

Fel yr eglurir isod, mae deddfau diogelu data yn berthnasol i'r llys a'r farnwriaeth mewn ffordd wahanol pan fydd data personol yn cael ei brosesu pan fyddant yn gweithredu mewn capasiti barnwrol, megis gwrando hawliadau a gwneud penderfyniadau barnwrol.

Rydym yn prosesu data personol a gafwyd mewn achosion Llys Gwarchod at ddibenion ystadegol hefyd. Mae'r data personol yn ddienw ac fe'i defnyddir i gynhyrchu ystadegau chwarterol ar weithgaredd llysoedd yng Nghymru a Lloegr. Weithiau bydd GLITEM yn defnyddio manylion cyswllt i ofyn i ddefnyddwyr llys os yr hoffent lenwi arolwg gwasanaeth cwsmeriaid i fesur bodlonrwydd defnyddwyr llys ac i lywio meysydd i'w gwella.

**Pan fyddwn yn gofyn am ddata personol gennych, byddwn:**

- yn addo i roi gwybod ichi am pam bod angen eich data personol arnom;
- byddwn ond yn gofyn am y data personol sydd ei angen arnom a pheidio â chasglu gwybodaeth sy'n amherthnasol neu'n ormodol;
- diogelu'r wybodaeth a sicrhau nad oes neb heb awdurdod yn cael hawl i'w gweld;
- yn ei rhannu gyda sefydliadau eraill o bosib; ond dim ond pan fo'n angenrheidiol i wneud hynny ac fe ganiateir gan y gyfraith (gweler isod);
- sicrhau nad ydym yn ei gadw'n hirach na sydd angen.

Gallwch:
- wneud cais i gael mynediad at eich data personol neu wneud cais iddo gael ei gywiro;
- gwrthwynebu ein bod yn prosesu eich data personol neu wneud cais i'r Llys dan Reol 5.7 Rheolau'r Llys Gwarchod 2017 i ofyn i'r prosesu cael ei gyfyngu. Dylech hefyd wirio'r darpariaethau yn hysbysiad preifatrwydd y farnwriaeth. www.judiciary.uk/about-the-judiciary/judiciary-and-data-protection-privacy-notice
- cyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth (gweler isod).

**Y sawl y gall yr wybodaeth gael ei rhannu â hwy**

Bydd yr wybodaeth rydych yn ei rhannu gyda ni yn cael ei rhannu gyda'r partïon eraill sy’n rhan o’r achos, gan gynnwys eu cynrychiolwyr cyfreithiol (ac fel arfer, dan y Rheolau, mae gofyn ichi roi’r wybodaeth honno iddynt eich hun, yn aml trwy anfon copi o’r ffurflen iddynt: gweler y ffurflenni penodol a’r Rheolau i gael rhagor o fanylion).

Ni fydd yr wybodaeth rydych yn ei rhoi inni fel arfer yn cael ei rhannu gyda rhywun nad yw'n barti i'r achos oni bai ei fod yn cael ei orchymyn yn benodol gan y llys neu fod y Rheolau yn ei ganiatáu. Mae yna reolau llym o ran pryd all gwybodaeth am achosion Llys Gwarchod gael ei datgelu y tu allan i'r achos. Nid yw’r math hwn o brosesu data gan lys yn berthnasol i'r hysbysiad preifatrwydd hwn oherwydd fel rheol fe'i cyflawnir gan y farnwriaeth annibynnol. Lle mae’n ofynnol inni rannu data personol gyda sefydliadau eraill, megis Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG), byddwn yn cydymffurfio â phob agwedd ar y rheolau, gan gynnwys deddfau diogelu data. Gall categorïau'r sefydliadau efallai y bydd yn ofynnol inni rannu eich data personol â hwy, sef y data a gasglwyd gan ffurflenni’r llys, gynnwys asiantaethau sydd wedi’u contractio gan GLITEM (e.e. cyfieithwyr, cyfryngwyr, asiantaethau trawsgrifio neu gyfieithu), adrannau eraill yn y Llywodraeth, neu lysoedd ac awdurdodau cyhoeddus o fewn neu tu allan i’r UE.

**Manylion trosglwyddiadau i drydedd wlad**

Weithiau bydd rhaid trosglwyddo data personol i wlad dramor er mwyn sefydlu, ymarfer, neu amddiffyn hawliau cyfreithiol. Bydd y rheswm dros drosglwyddo a pha drydedd wlad sy’n cael yr wybodaeth wastad yn ddibynnol ar amgylchiadau’r achos, ond bydd unrhyw drosglwyddiadau o’r fath yn cael ei wneud gan gydymffurfio’n llawn â phob agwedd ar y gyfraith (mae ‘trydedd wlad’ yn golygu gwlad y tu allan i’r UE).

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni trwy anfon neges e-bost i: privacy@justice.gov.uk

**Cyfnod cadw ar gyfer gwybodaeth a gesglir**

Mae cyfnodau cadw gwahanol yn berthnasol yn ddibynnol ar y math o achos rydych yn rhan ohono. I ganfod beth yw'r cyfnodau cadw a gweld gwybodaeth arall a all fod yn ddefnyddiol, gweler: www.gov.uk/government/publications/record-retention-and-disposition-schedules

**Mynediad at wybodaeth bersonol**

Gallwch ganfod os oes gennym unrhyw ddata personol amdanoch drwy wneud ‘cais gwrthrych am wybodaeth’. Gallwch wneud cais gwrthrych am wybodaeth trwy anfon e-bost i: Data.access@justice.gov.uk

**Gallwch gael rhagor o fanylion ynghylch:**

- Cytundebau sydd gennym gyda sefydliadau eraill ar gyfer rhannu data personol;
- Amgylchiadau lle gallwn drosglwyddo'ch data personol heb roi gwybod i chi, er enghraifft, i'n helpu i atal a datrys troseddau neu gynhyrchu ystadegau dienw;
- Ein cyfarwyddiadau i staff ynghylch sut mae casglu, defnyddio neu ddileu eich data personol;

- Sut rydym yn gwirio bod y data personol sydd gennym yn gywir ac yn gyfredol;
- Sut i wneud cwyn.

I gael rhagor o wybodaeth am y materion uchod neu ar gyfer unrhyw ymholiadau eraill, cysylltwch gyda'n Swyddog Diogelu Data drwy e-bost yn: privacy@justice.gov.uk

**Cwynion**

Pan ofynnwn i chi am wybodaeth, byddwn yn cadw at y gyfraith. Os ydych yn credu bod eich gwybodaeth wedi cael ei thrin yn anghywir gan MoJ neu GLITEM, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth am gyngor annibynnol ar ddiogelu data. Manylion cyswllt y Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
www.ico.org.uk